

Y Gwir Anrh. Stephen Crabb AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cymreig  
Senedd y DU

12 Gorffennaf 2021

Annwyl Stephen Crabb,

### **Gweithio ar y cyd yn y dyfodol**

Rwyf yn ysgrifennu atoch i gyflwyno fy hun fel Cadeirydd newydd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru ac ar ran y Pwyllgor gobeithiaf y byddwn yn gallu meithrin perthynas adeiladol a chydweithredol â'r Pwyllgor Materion Cymreig.

O ran cydweithio yn y dyfodol, mae ein Pwyllgor yn awyddus i fynd ar drywydd sawl mater gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig. O safbwynt ein Pwyllgor, mae llawer o'r materion hyn yn ymwneud â chyfathrebu anfoddhaol Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru, a chydaf'r Pwyllgor Cyllid a oedd yn ein rhagflaenu.

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid [sesiwn dystiolaeth](#) gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021 i 2022. Yn ystod y cyfarfod hwn, tynnodd y Gweinidog sylw at ei hanawsterau parhaus wrth gael eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch cyllid canlyniadol Barnett:



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddCyllid@senedd.cymru](mailto:SeneddCyllid@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddFinance@senedd.wales](mailto:SeneddFinance@senedd.wales)

 0300 200 6565

*"...you'll be aware of UK Government's announcements in respect of education recently. Now, we haven't been able to determine whether that's new money, whether it's repurposed funding, whether it's reannouncing previously-announced funding, and as such, we're unable to get a clear picture as to what our, if anything, Barnett consequential would be as a result of that announcement, and that's just one example."*

At hynny, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw cyfathrebu a chraffu ar drefniadau ariannol â Llywodraeth y DU yn addas at y diben. Awgrymodd [adroddiad gwaddol](#) y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylid gweithio'n agosach gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r Pwyllgor Materion Cymreig i roi pwysau ar y cyd ar Lywodraeth y DU i ddarparu eglurder ynghylch penderfyniadau cyllido.

Roedd pryder arall i'r pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu, a amlygwyd yn ei adroddiad gwaddol, yn ymwneud â chyflwyno trethi newydd ar gyfer Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei chweched adroddiad blynyddol ar weithredu Deddf Cymru 2014:

*"Mae profiad Llywodraeth Cymru o symud drwy'r broses wedi bod yn hir ac yn heriol... Mae wedi dod i'r amlwg bod diffygion difrifol yn y broses y cytunwyd arni ar gyfer datganoli cymhwysedd trethu. Fel y mae'r broses ar hyn o bryd, mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai Llywodraeth Cymru lwyddo i gyflwyno'r achos dros gymhwysedd trethu pellach. Mae angen adolygu a diwygio'r broses ar fyrder."*

O ran yr oedi gyda'r broses ar drethi newydd, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth y Pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu:

*"I think if there is a legitimate concern that is raised about maybe the speed of progress or the manner of engagement... we'd be very happy to take that up... with the Treasury."*

Dim ond rhai o'r materion y mae'r Pwyllgor yn awyddus i fynd ar eu trywydd ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig yw'r rhain, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn ar weithio ar y cyd yn y dyfodol.



Efallai y byddai'n werth i ni drefnu cyfarfod fel Cadeiryddion ein priod bwyllgorau, fel y gallwn drafod y materion hyn ymhellach.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Peredur Owen Griffiths AS'. The signature is fluid and cursive, with a prominent initial 'P' and 'O'.

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.**

**We welcome correspondence in Welsh or English.**

